

PAPUR FSAW 16/07/03
I'W DRAFOD
DIWEDDARIAD GAN Y CYFARWYDDWR

Crynodeb Gweithredol

1. Mae'r papur hwn yn cynnwys crynodeb byr o'r prif faterion a amlinellwyd gan y Prif Weithredwr yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd ym mis Mai 2016. Mae cofnodion llawn y cyfarfod hwnnw ar gael ar wefan yr Asiantaeth drwy <http://www.food.gov.uk> (Saesneg yn unig). Mae'r papur hwn hefyd yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am faterion sy'n berthnasol i Gymru ac yn sail i ddiweddariad y Cyfarwyddwr i Bwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru.
2. Bydd y Cyfarwyddwr yn ategu'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn gyda diweddariad ar lafar, lle bo'n briodol.
3. Gwahoddir aelodau i:
 - **nodi** trafodaethau'r Bwrdd
 - **gwahodd** y Cyfarwyddwr i ymhelaethu ar unrhyw faterion i'w trafod ymhellach

Swyddog Cyswllt yn yr Asiantaeth yng Nghymru: Lucy Edwards
Lucy.Edwards@foodstandards.gsi.gov.uk

Ffôn: 02920 678957

**PAPUR FSA 16/07/03
I'W DRAFOD
DIWEDDARIAD GAN Y CYFARWYDDWR**

1. Crynodeb o Adroddiad y Prif Weithredwr i Gyfarfod Agored y Bwrdd ar 18 Mai 2016.

1.1 Derbyniodd y Bwrdd adroddiad ysgrifenedig y Prif Weithredwr (FSA 18/05/16) sydd ar gael drwy <http://www.food.gov.uk/sites/default/files/fsa160503.pdf> (Saesneg yn unig).

2. Adroddiad Cyfarwyddwr Cymru ar faterion yn ymwneud â Chymru

Ymgysylltu'n allanol

2.1 Rwyf wedi cymryd rhan yn y cyfleoedd ymgysylltu canlynol ers cyfarfod diwethaf y pwyllgor hwn ar 12 Mai 2016:

- 19 Mai – cyfarfod cadw cysylltiad rhwng yr ASB a Llywodraeth Cymru.
- 20 Mai – cyfarfod â Chyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru.
- 8 Mehefin – cyfarfod â Robert Hartshorn, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Etholiadau yng Nghymru

2.2 Yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai, dyma'r Gweinidogion newydd sy'n berthnasol i gylch gwaith yr ASB yng Nghymru:

- Rebecca Evans yw'r Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros Wasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd y Cyhoedd
- Lesley Griffiths yw Ysgrifennydd y Cabinet sydd â chyfrifoldeb dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig.

2.3 Bu i Heather Hancock a Tim Bennett gwrdd â'r ddau Weinidog ddydd Mawrth 21 Mehefin am gyfarfod cychwynnol ac i drafod gwaith presennol yr ASB, ac unrhyw waith sydd ar y gorwel. Ymhlith y materion a drafodwyd â Rebecca Evans yr oedd Rheoleiddio ein Dyfodol, y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd, adolygiad o'r Uned Trosedd Bwyd, cyllid ar gyfer samplu bwyd a byrgys a gaiff eu gweini heb eu coginio'n drylwyr. Ymhlith y materion a drafodwyd â Lesley Griffiths yr oedd Rheoleiddio ein Dyfodol, Cynllun Gweithredu Bwyd a Diod Cymru, gwastraff bwyd a rhaglen ymgysylltu'r ASB yng Nghymru dros haf 2016.

Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yng Nghymru

2.4 Ym mis Tachwedd 2016, bydd rheoliadau newydd yn dod i rym yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau tecawê yng Nghymru arddangos datganiad dwyieithog ar eu deunyddiau copi caled sy'n cyfeirio defnyddwyr at wefan y Cynllun Sgorio ac yn eu hannog i holi'r busnes

bwyd am eu sgôr. Yn bennaf, mae hyn yn cynnwys deunyddiau sy'n hysbysebu bwyd ac o dan y rheoliadau newydd, mi fydd yn drosedd i beidio ag arddangos y datganiad. Mae cyflwyno Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd gorfodol wedi bod yn llwyddiant ysgubol yng Nghymru, ac wedi llwyddo i wella safonau hylendid mewn bwytai, tafarndai, caffis a busnesau bwyd eraill ar hyd a lled y wlad. Nawr, bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i gyflwyno rheoliadau pellach i'w gwneud yn ofynnol i fusnesau bwyd hyrwyddo sgoriau hylendid bwyd ar eu gwefannau.

Erlyn troseddau diogelwch bwyd yn llwyddiannus

2.5 Llwyddodd Cyngor Dinas Casnewydd i ddwyn erlyniad yn erbyn Severnside Provisions ddiwedd mis diwethaf. Gorchynnwyd y cwmni i dalu cyfanswm o £400,000 yn Llys y Goron y ddinas mewn dirwyon, ceisiadau enillion troseddau a chostau i Gyngor Dinas Casnewydd. Dedfrydwyd dau uwch gyfarwyddwr yn y cwmni i 24 wythnos yn y carchar. Roedd hyn o ganlyniad i ymchwiliad a lansiwyd ym mis Rhagfyr 2013, yn sgil pryderon gan y Cyngor yn dyddio'n ôl i 2010 bod y cwmni yn prosesu tyrcwn heb y trwyddedau cywir. Roedd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn rhan o'r ymchwiliad er mwyn sicrhau bod 'butterflies twrci' a gynhyrwyd yn anghyfreithlon yn cael eu galw'n ôl yn llwyddiannus ar ôl canfod eu bod wedi'u gwerthu i gigyddion a bwytai ar draws y Deyrnas Unedig. Dyma'r defnydd cyntaf o ganllawiau dedfrydu newydd yng Nghymru ar gyfer troseddau o'r natur hon, a bydd yn anfon rhybudd clir at fusnesau eraill. Ysgrifennodd Catherine Brown, Prif Weithredwr yr ASB, at Brif Weithredwr yr awdurdod i'w llongyfarch ar ganlyniad gwych.

2.6 Mae manylion erlyniadau safonau, hylendid a diogelwch bwyd llwyddiannus diweddar yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ar gael drwy:

<http://www.food.gov.uk/news-updates/news/2015/14644/food-standards-agency-publishes-food-law-prosecutions-database> – cliciwch ar 'Cymraeg

3. Bwrw Golwg Ymlaen

3.1 Rhwng nawr a chyfarfod nesaf Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru ar 15 Medi 2016, rwyf wedi ymrwymo i'r pethau hyn sy'n berthnasol i'r ASB yng Nghymru:

- 30 Mehefin – cyfarfod Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Llywodraeth Cymru
- 8 Awst – cyfarfod â Christianne Glossop, Prif Swyddog Milfeddygol Cymru
- 9/10 Awst – byddaf yn mynychu Sioe Môn lle byddaf yn cwrdd â nifer o randdeiliaid pwysig.

Nina Purcell
Cyfarwyddwr, ASB Cymru
Gorffennaf 2016